**POLISI DEFNYDD BWRIADWY AR GYFER TRWYDDEDU CERBYDAU HACNI**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Diben y polisi hwn yw nodi sut y bydd y Cyngor yn delio â thrwyddedu, adnewyddu a throsglwyddo cerbydau hacni yn dilyn Dyfarniad yr Uchel Lys – Cyngor Dinas Newcastle v Berwick upon Tweed [2008] EWHC 2369 (Gweinyddol). Wrth ystyried ceisiadau newydd am drwyddedau perchnogion cerbydau hacni , bydd y cyngor yn penderfynu ar y ceisiadau hynny yn unol â'r egwyddorion a gynhwysir yn y dyfarniad yn yr achos uchod (gweler 7.1 isod).

1.2 Bydd y Cyngor yn penderfynu ar bob cais yn ôl ei rinweddau, ond bydd yn rhoi diogelwch y cyhoedd uwchlaw pob ystyriaeth arall.

## 2. Ceisiadau am grant newydd o drwydded cerbyd hacni

2.1 Disgwylir i ymgeiswyr am drwyddedau newydd ddangos bwriad dilys i weithredu'n bennaf o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin o dan delerau'r drwydded y gwneir cais amdani. Bydd rhagdybiaeth na fydd ymgeiswyr nad ydynt yn bwriadu gweithredu'n bennaf o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael trwydded cerbyd hacni sy'n eu hawdurdodi i wneud hynny. Bydd pob cais yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau.

2.2 Hyd yn oed pan fo'r ymgeisydd yn bwriadu gweithredu'n bennaf yn Sir Gaerfyrddin, os yw'r bwriad yw masnachu yn ardal awdurdod arall hefyd am gyfnod sylweddol o amser (ac mae'n ymddangos y bydd diben y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd yn cael eu peryglu) yna, yn amodol ar rinweddau'r cais penodol, bydd rhagdybiaeth y bydd y cais yn cael ei wrthod.

## 3. Ceisiadau i adnewyddu trwydded cerbyd hacni

3.1 Bydd gofyn i ymgeiswyr am adnewyddu trwyddedau hysbysu'r Cyngor a oes ganddynt fwriad dilys i weithredu'n bennaf o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin o dan delerau'r drwydded y gwneir cais amdani. Bydd rhagdybiaeth na fydd ymgeiswyr nad ydynt yn bwriadu gweithredu'n bennaf o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin yn cael trwydded cerbyd hacni sy'n eu hawdurdodi i wneud hynny. Mae Adran 60 o Ddeddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1976 yn rhoi disgresiwn eang i'r Cyngor wrthod adnewyddu trwydded am unrhyw reswm rhesymol. Bydd pob cais yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau.

3.2 Hyd yn oed pan fo'r ymgeisydd yn bwriadu gweithredu'n bennaf yn Sir Gaerfyrddin, os yw'r bwriad yw masnachu yn ardal awdurdod arall hefyd am gyfnod

sylweddol o amser (ac mae'n ymddangos y bydd diben y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd yn cael eu peryglu) yna, yn amodol ar rinweddau'r cais penodol, bydd rhagdybiaeth y bydd y cais yn cael ei wrthod.

## 4. Trosglwyddo perchnogaeth – pan fydd cerbyd yn cael ei drosglwyddo o un person i un arall

4.1 Mae Adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn ei gwneud yn ofynnol i berchennog y cerbyd trwyddedig sy'n trosglwyddo ei fuddiant i un arall, o fewn 14 diwrnod i'r trosglwyddiad, roi hysbysiad ysgrifenedig i'r Cyngor o enw a chyfeiriad trosglwyddai'r cerbyd hacni. Nid oes gan y Cyngor unrhyw bŵer i wrthod cofrestru'r perchennog newydd: gweler R v Cyngor Bwrdeistref Weymouth, ex p Teletax (Weymouth) Ltd [1947] KB 583. Cyn belled â bod yr hysbysiad angenrheidiol wedi'i roi yn unol ag adran 49 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976, bydd y Cyngor yn cofrestru trosglwyddai cerbyd hacni trwyddedig fel y perchennog newydd. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol.

4.2 Gofynnir i drosglwyddai cerbyd hacni trwyddedig hysbysu'r Cyngor a oes ganddo fwriad dilys i weithredu'r cerbyd yn bennaf yn ardal weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin. Dylai trosglwyddwyr nodi'r rhwymedigaeth o dan adran 73 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 i roi gwybodaeth i swyddog awdurdodedig y gall fod ei hangen yn rhesymol arno at ddiben cyflawni ei swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth. Lle methir â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani; bydd y Cyngor yn ystyried o ddifrif arfer ei bwerau i atal y drwydded o dan adran 60 o Ddeddf 1976 nes bod y wybodaeth honno ar gael, yn ogystal â'i bwerau o dan adran 73.

4.3 Disgwylir i drosglwyddwyr trwyddedau presennol fod â bwriad dilys i weithredu'n bennaf o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin o dan delerau'r drwydded mewn perthynas â'r cerbyd sy'n cael ei drosglwyddo.

4.4 Os canfyddir nad oes gan drosglwyddai cerbyd hacni trwyddedig unrhyw fwriad i weithredu'n bennaf o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin a/neu os yw'n bwriadu masnachu yn ardal awdurdod arall hefyd am gyfnod sylweddol o amser ac os yw'n ymddangos y bydd diben y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd yn cael eu peryglu, yna, yn amodol ar rinweddau'r achos penodol, rhoddir ystyriaeth (naill ai wrth adnewyddu neu'n gynharach) i atal neu ddirymu'r drwydded o dan adran 60 o Ddeddf 1976. Os yw'r trosglwyddai yn bwriadu gweithredu o bell o ardal weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin, bydd rhagdybiaeth y bydd ei drwydded yn cael ei dirymu. Penderfynir ar bob achos yn ôl ei rinweddau.

## 5. Dirymu trwydded

5.1 Pan fydd trwydded wedi'i rhoi o dan y telerau bod yr ymgeisydd yn bwriadu gweithredu'n bennaf o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin ond y canfyddir wedi hynny nad yw'n gweithredu'n bennaf yn Sir Gaerfyrddin a'i fod yn masnachu yn ardal awdurdod arall am gyfnod sylweddol o amser (ac mae'n ymddangos y bydd diben y ddeddfwriaeth a diogelwch y cyhoedd yn cael eu peryglu) bydd rhagdybiaeth y bydd y drwydded yn cael ei dirymu.

**6. Amgylchiadau eithriadol**

6.1 Bydd pob cais yn cael ei benderfynu yn ôl ei rinweddau. Fodd bynnag, bydd y rhagdybiaethau mai'r defnydd bwriadedig yw gweithredu'n bennaf o fewn ardal weinyddol Cyngor Sir Caerfyrddin yn wrthbrofadwy mewn amgylchiadau eithriadol. Er nad yw'n bosibl nac yn ddoeth llunio rhestr o'r hyn a allai fod yn amgylchiadau eithriadol, disgwylir i ymgeisydd sy'n honni bod amgylchiadau eithriadol yn bodoli allu bodloni'r Cyngor na fyddai'n peryglu dibenion y ddeddfwriaeth nac yn peryglu diogelwch y cyhoedd pe bai'r drwydded yn cael ei rhoi, ei hadnewyddu neu pe na bai'n cael ei hatal neu ei dirymu yn ôl y digwydd.

**7. Rhesymau dros y Polisi**

7.1 Mae'r Cyngor yn dymuno sicrhau bod ceisiadau am roi trwyddedau cerbydau hacni yn cael eu penderfynu yn unol â'r canllawiau a roddwyd gan yr Uchel Lys yn ei farn yn achos Cyngor Dinas Newcastle v Cyngor Berwick upon Tweed [2008]. Gwnaed y datganiadau canlynol yn y dyfarniad hwn - a) “Y bwriad oedd y dylai'r system drwyddedu weithredu yn y fath fodd fel bod yr awdurdod sy'n trwyddedu cerbydau hacni yn awdurdod ar gyfer yr ardal lle mae'r cerbydau hynny'n cael eu defnyddio'n gyffredinol” b) “Mae gan awdurdod trwyddedu, sy'n cyfarwyddo ei hun yn briodol, hawl ac yn wir rwymedigaeth i roi ystyriaeth i a yw'r ymgeisydd mewn gwirionedd yn bwriadu defnyddio'r cerbyd hacni hwnnw'n bennaf, neu'n gyfan gwbl, o bell o ardal yr awdurdod” c) “Rhaid ei bod yn ddymunol i awdurdod sy'n rhoi trwyddedau i gerbydau hacni allu cyfyngu rhoi'r drwydded honno i berchnogion a gyrwyr sy'n bwriadu ceisio am dâl yn ardal yr awdurdod hwnnw” d) “Er na allaf ar hyn o bryd ddychmygu ei bod yn rhesymol rhoi trwydded i'r rhai sy'n bwriadu gweithredu eu cerbydau hacni o bell o [ardal yr awdurdod lleol] nid wyf yn barod i ddweud ei bod yn sicr o fod yn anghyfreithlon” ) “Bydd perchnogion sy'n dymuno defnyddio eu cerbydau mewn nifer o ardaloedd awdurdodau gwahanol ac yn yr achos hwnnw does dim dwywaith y bydd hyblygrwydd wrth arfer y disgresiwn. Materion fel lle mae'r perchennog wedi'i leoli a lle mae'r rhan fwyaf o'r busnes yn dod o fydd materion perthnasol i'w hystyried”

7.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor gofrestru enw perchennog newydd cerbyd. Ymddengys i'r Cyngor hefyd ei fod yn agor llwybr amlwg i osgoi penderfyniad yr Uchel Lys, oni bai bod camau rhagofalus yn cael eu cymryd. Bwriad Adran 4 yw rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa i ymateb yn gyfrifol i drosglwyddo cerbyd hacni Sir Gaerfyrddin i enw rhywun sy'n gweithredu y tu allan i Sir Gaerfyrddin neu o bell oddi wrthi.